


Adnabod Arysgrifiadau Rhufeinig

Rydyn ni'n dal i ddefnyddio wyddor Lladin y Rhufeiniad heddiw, ac mae arysgrifiadau Rhufeinig yn aml yn dilyn fformiwla sy'n hawdd i'w darllen os ydych chi'n gwybod sut. Mae'r esiamplau yma i'w gweld yn Amgueddfa Llang Rufeinig Cymru, Caerllion

Dewch o hyd i ragor o ganllawiau archaeoleg neu cysylltwch ag archaeolegwyr yr Amgueddfa i gael cymorth gydag adnabod: amgueddfa.cymru/casgliadau/ar-eich-stepen-drws neu ar Twitter @SF_Archaeology



Y Fformiwla Gyffredinol

D M *Dis Manibus* – i ysbrydion yr ymadawedig. Mae hyn yn cysegru'r bedd i ysbrydion cyfeillgar (*Manes*) y meirw.


Enw - *Aurelius Herculanus* yn yr achos hwn. Cofiwch fod dim **U** yn y wyddor Lladin, a bod **V** yn cael ei ddefnyddio yn ei lle.

Statws, llwyth - **AEQVES** yn yr achos hwn – marchfilwr neu fan geni.

Oed - **V¹X¹T ANNOS XXV¹II** – bu fyw 28 mlynedd' .

Cadwch lygad hefyd am... **STIP stipendiorum** – gwasanaethodd am ... mlynedd **CON¹VX** (neu *coniunx*) – ei gymar / ei wraig.

FACIENDUM CVRAV¹T gafodd hwn wedi'i wneud.



VETERANUS

Roedd rhai llengfilwyr yn byw'n ddigon hir i ymddeol a mwynhau eu bysiwn.

D M (ar goll o'r gofeb hon)
IVL.VALENS Julius Valens
VET(eranus) cyn-filwr (yn yr

.LEG.II.AVG.

Ail Leng Awgwstaidd
VIXIT.ANNIS Bu fyw

C 100 mlynedd

IVL.SECVNDINA

Julia Secundina

CONIVNX ei gymar (yn llythrennol 'wedi eu huno')

IVL.MARTINVS Julius Martinus
FILIVS ei fab

.F. .C.

faciendum curaverunt – gafodd hwn wedi'i wneud.



Ymerodrol

Ar yr arysgrifiad hwn mewn marmor Eidalaidd mae'r *ansae* neu ddolenni *tabula ansata* Rhufeinig. Mae'n cysegru'r gaer, neu ran ohoni, i'r ymerawdwr. Mae'r geiriau'n dweud ...

IMP *Imperator* – I'r Ymerawdwr
CAES Cesar

DIVINERVAE.F. Mab y dwyfol Nerva

NERVA.TRAIANO.AVG. Nerva Trajan Augustus (Cofiwch fod dim **J** yn y wyddor Lladin)

GER Concwerwr yr Almaen
PONTIF.MAXIMO. Archoffeiriad
TRIB.POTEST. Awdurdod tribiwnaidd

P.P. (*Patri Patriae*) Tad ei wlad,
COS III Conswl am y trydydd tro (Roedd hi'n OC 100 i Trajan)
LEG.II.AVG y mae'r Ail Leng Awgwstaidd (yn cyflwyno hyn).



Teuluol

I ysbrydion yr ymadawedig

Julia Veneria, 32 oed

Julius Alesander

PIENTISSIMVS ei gŵr ffyddlon

Julius Belicianus ei mab (mae **F** yn dalfyriad am *filius*).

F C gafodd hwn wedi'i wneud

Mae atalnodau yn rhannu gwahanol eiriau. Julius a Julia yw'r enwau Rhufeinig mwyaf cyffredin yng Nghaerllion.

Rhifolion

Roedd rhifau Rhufeinig, sy'n hawdd eu cerfio a'u craffu, wedi seilio ar lythrennau Ladin.

I = 1, **IIII** = 4, **V** = 5,

VIII = 8, **X** = 10,

XXXVII = 37, **L** = 50,


LXV = 65, **LXXX** = 80,

C = 100, **S** = *semis* – hanner,

XXXIIIS = 33.5,

MESSE(S) = misoedd,

MENSIS = mis, **DIES** = diwrnod.



Ligatures

Mae ligatures (llythrennau dyblyg) yn gelfyddyd. Edrychwch ar y garreg Tadia uchod... I fechan ar ben **T** i greu **†** *it* neu *ti*. Mae **I** yn cael ei ychwanegu hefyd at **D** ac **N** i ysgrifennu

EXPEDITIONE.GERMANICA (Ymgyrch Almaenig).

Gyda rhifolion, ychwanegir **I** fechan ar ben rhifolyn arall, fel **V** i greu **V¹** (chwech), fel ar garreg Aurelius Herculanus, ble mae **XXV¹II** yn 28.

Hefyd ar garreg Tadia mae...

P am yn ôl wedi uno ag **E**, **E** a **T** wedi uno *et* – sef 'ac' yn Lladin, **N** ac **E** wedi uno, **E** am yn ôl wedi uno ag **R**, **M** ac **A** a wedi uno drwy ychwanegu croesfar i'r **M**.

Am gyfieithiad llawn o'r arysgrifiad hwn, ac arysgrifiadau eraill o Brydain Oes y Rhufeiniaid ewch i <https://romaninscriptionsofbritain.org/>